
NHS
Test and Trace

**Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau'r prawf.**
**Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i'r un a ddefnyddioch yn flaenorol.**

# Eich canllaw cam wrth gam i'r Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2




Withdrawn January 2024

Mae'r cyfarwyddiadau defnydd hyn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2, 07AG6007BS yn unig.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i brofi eich hun neu unigolyn arall am COVID-19, ac adrodd i'r GIG am y canlyniadau.

Mae fersiynau ar gael mewn **ieithoedd eraill** gan gynnwys Cymraeg, ynghyd ag arddangosiadau fideo **gov.uk/covid19-self-test-help**

**Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG**

# Beth sydd angen i chi ei wneud

## Eich canllaw cam wrth gam

Darllenwch y cyfarwyddiadau defnydd yn ofalus a dilyn y camau yn y drefn gywir. Mae pob prawf yn cymryd tua 15 munud i baratoi a bydd y canlyniadau'n barod ar ôl 15 munud arall.

15 munud i baratoi

### Cynnwys y llyfryn hwn


| Rhan | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Paratoi eich ardal brawf | 6 |
| | Gwirio cynnwys eich pecyn profi | 7 |
| 2 | Paratoi eich prawf | 8 |
| 3 | Cymryd eich sampl swab | 10 |
| | Helpu rhywun arall | 11 |
| 4 | Prosesu'r sampl swab | 12 |
| 5 | Darllen eich canlyniad | 14 |
| 6 | Adrodd eich canlyniad | 15 |
| 7 | Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu | 16 |
| 8 | Perfformiad y prawf | 17 |
| 9 | Gwaredu'ch pecyn profi yn ddiogel | 17 |
| | Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion | 18 |


### Nid yw tua 1 o bob 3 o bobl sydd â COVID-19 yn gwybod ei fod ganddynt.

Gyda hunan-brofi rheolaidd gallwn arafu'r lledaeniad a helpu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein teuluoedd a'n cymunedau.



## Cyngor ar gymryd y prawf

Mae yna awgrymau defnyddiol, cyngor a blychau rhybudd trwy gydol y canllaw i'ch helpu. Trwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus gam wrth gam, byddwch yn llawer mwy tebygol o gael canlyniad dibynadwy.

### Canllawiau a rhybuddion cyffredinol

- Os ydych chi wedi tyllu'ch trwyn, tynnwch y darn cyn swabio.
- Os bydd eich trwyn yn gwaedu yn ystod swabio, stopiwch swabio. Nid yw'n bosibl profi'r swab.
- Nid yw'r cynnyrch wedi ei greu gyda latecs rwber naturiol. Fodd bynnag ni ellir eithrio presenoldeb neu olion latecs rwber naturiol yn y cynnyrch fel y mae wedi ei ddarparu i'r defnyddiwr terfynol yn llwyr.
- Cadwch y pecyn profi i ffwrdd o blant ifanc.
- Dilynwch y camau samplu gyda swab yn ofalus iawn a defnyddio'r swabiau a ddarparwyd gyda'r pecyn hwn ar bob adeg. Gallai methiant i gasglu'r sampl yn gywir arwain at ganlyniadau prawf anghywir.
- Gall oedolyn arall gynorthwyo pobl sydd angen cymorth ychwanegol, yn arbennig y rhai gyda nam ar eu golwg. Talwch sylw arbennig i'r wybodaeth atodol ar Dudalen 11 wrth gyflawni'r prawf.

**RHYBUDD**

Peidiwch â defnyddio'r cynnyrch tu hwnt i'r dyddiad dod i ben.

**CYNGOR**

- Storiwch y pecyn profi mewn lleoliad sych, heb fod yn rhy gynnes (4°C i 30°C).
- Peidiwch â'i adael yng ngolau'r haul uniongyrchol a pheidiwch â storio mewn oergell neu rewgell gan y gall hyn arwain at ganlyniadau anghywir.
- Peidiwch â defnyddio'r cerdyn prawf os yw'r pecyn wedi selio wedi ei ddifrodi neu'r sêl wedi torri.
- Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn ardal dan 15°C, gadewch ef ar dymheredd ystafell am 30 munud cyn ei ddefnyddio.

Withdrawn January 2024

# Ynglŷn â'r prawf hwn

## Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae'r pecyn hunan-brawf COVID-19 yma yn brawf swab ar gyfer y trwyn i wirio os ydych yn heintus. Mae ar gyfer pobl sydd â symptomau yn ogystal â rhai heb unrhyw symptomau. Fodd bynnag, dylech ddilyn canllawiau cenedlaethol i wirio pa fath o brawf sy'n addas i chi.

### Os byddwch yn dychwelyd prawf positif ar gyfer COVID-19 dylech:

- Helpu cyfyngu ar ledaeniad y clefyd, dylech chi a'ch aelwyd ddilyn canllawiau'r llywodraeth: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/**
- Gynghori'r rhai rydych chi wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw a lleoliadau rydych chi wedi ymweld â nhw yn ystod y 48awr cyn i'ch symptomau gychwyn, neu o'r diwrnod pan ddangosir canlyniad prawf positif os nad oes symptomau, y dylent gael prawf ar gyfer haint COVID-19 posibl. Dilynwch ganllawiau lleol a chenedlaethol ar bob adeg.

### Os byddwch yn derbyn prawf negatif ar gyfer COVID-19

Mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrwydd nad oes gennych y coronafeirws. Dylech barhau i ddilyn canllawiau'r llywodraeth.

**CYNGOR**

Os oes gennych chi neu eich plentyn/plant symptomau coronafeirws (COVID-19) neu os ydych wedi dal y coronafeirws (COVID-19), darllenwch ganllawiau'r GIG ar-lein: **nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19**

Os oes gennych chi neu eich plentyn/plant symptomau coronafeirws (COVID-19) ac mae'r cyflwr yn gwaethygu, neu os nad ydych chi/eich plentyn/plant yn gwella wedi 7 niwrnod, ewch i wasanaeth ar-lein **111** y GIG: **111.nhs.uk**. Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch GIG **111**. Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999**.

**Peidiwch ag oedi cyn gofyn am help os ydych yn poeni. Dilynwch eich greddf.**

## Ar gyfer pwy mae'r prawf yma'n addas

### Plant dan 14

Dylent gael cymorth gan oedolyn. Peidiwch â chynnal y prawf hwn os nad ydych yn teimlo'n hyderus yn helpu plentyn. (Gweler tudalen 11 am ragor o wybodaeth ar helpu plant)

### Unigolion 14 oed neu hŷn

Gall pobl ifanc 14-17 oed hunan-brofi gyda goruchwyliaeth oedolyn. Dylai pawb arall hunan-brofi ac adrodd, gyda chymorth os oes angen.

### Pa mor aml i brofi

Gall pa mor aml y dylech brofi amrywio yn ôl eich amgylchiadau a beth yw'r canllawiau cenedlaethol neu leol ar y pryd.

### Ble i ddod o hyd i gymorth ychwanegol

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hunan-brofi ar: **gov.uk/covid19-self-test-help**


Withdrawn January 2024


Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.

Withdrawn January 2024

# 1. Paratoi eich ardal brawf


**Byddwch angen:** amserydd fel oriawr neu gloc, hancesi papur glanhawr arwyneb, hylif diheintio dwylo neu sebon a mynediad at ddŵr cynnes.



1. Darllenwch y ddogfen Cyfarwyddiadau Defnydd yma'n ofalus.
   Gallwch hefyd wylio'r fideo prawf swab ar-lein os ydych chi angen rhagor o help: **gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help**



2. Yn syth cyn cychwyn y prawf, cliriwch, glanhewch a sychu arwyneb gwastad i roi'r pecyn profi arno.





3. Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.
   Os ydych chi'n profi mwy nag un person neu'n ailadrodd prawf annilys, golchwch eich dwylo eto rhwng pob prawf.




# Gwiriwch gynnwys y pecyn

4. Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld yr holl gynnwys isod. Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth wedi ei dorri na ddifrodi.





Stand Tiwb





Swab Di-haint mewn Pecyn wedi ei Selio




Cerdyn Profi mewn Pecyn wedi ei Selio



Potel Byffer Echdynnu



Tiwb Echdynnu

**CYNGOR**

**Beth i'w wneud os yw rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll**


Os byddwch yn sylwi bod unrhyw beth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll, peidiwch â defnyddio'r pecyn profi. Gallwch roi adborth trwy ffonio'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid. Mae'r llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

Ffoniwch: **119** (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).
Rydym yn cynnig cefnogaeth mewn 200 o ieithoedd, yn ogystal ag Iaith Arwyddion Prydain.


Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfais; gallai adrodd amdano helpu eraill.
Ewch i: **coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk**

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.

# 2. Paratoi eich prawf




**5** Rhowch y tiwb echdynnu yn stand y tiwb i osgoi arllwys yr hylif.




**6** Trowch gaead y botel byffer echdynnu.

**RHYBUDD:** Agorwch y botel byffer echdynnu yn ddigon pell o'ch wyneb a gofalwch beidio â gollwng unrhyw hylif.




**7** Gwasgwch yr holl doddiant byffer allan o'r botel byffer echdynnu i'r tiwb echdynnu.

**RHYBUDD:** Ceisiwch osgoi cyffwrdd y botel yn erbyn y tiwb.




**8** Chwythwch eich trwyn yn ysgafn gan ddefnyddio hances bapur, a thaflwch yr hances mewn bin wedi cau.

Os ydych yn cynnal prawf ar blentyn helpwch ef neu hi i chwythu ei drwyn/thrwyn. Mae hyn er mwyn cael gwared ar lysnafedd gormodol.







**9** Golchwch eich dwylo'n drylwyr eto am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes.



**10** Chwiliwch am y swab yn y pecyn wedi ei selio. Nodwch ben ffabrig, meddal y swab.




**11** Agorwch becyn y swab a'i dynnu allan gyda gofal.

**RHYBUDD**

Peidiwch â chyffwrdd blaen meddal, ffabrig y swab gyda'ch dwylo


Withdrawn January 2024

# 3. Cymryd eich sampl swab


**RHYBUDD**

Dylid cyflawni'r prawf yn defnyddio sampl swab o'r trwyn yn unig. Os na fyddwch chi'n dilyn cyfarwyddiadau'r swab yn ofalus, gallai hyn arwain at ganlyniadau prawf anghywir.

**Os ydych yn helpu plentyn dan 14 neu rywun sydd angen cymorth, dilynwch y camau ar dudalen 11.**




**12** Rhowch y swab yn ofalus i mewn i un ffroen. Dylid mewnosod blaen y swab dim llai na 2.5 cm o ymyl y ffroen.




**13** Rholiwch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn eich ffroen mewn symudiad cylchol 3-4 o weithiau. Tynnwch y swab yn araf. Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'ch ffroen.

**RHYBUDD:** Gallai hyn deimlo'n anghyfforddus. Peidiwch â gosod y swab yn ddyfnach os teimlwch ei fod yn cyffwrdd â rhwystr neu'n peri poen.

**Gan ddefnyddio'r un swab, ailadroddwch gamau 12 a 13 ar gyfer y ffroen arall.**




# Helpu rhywun arall

Dylai oedolyn helpu plant dan 14. Dilynwch y canllawiau isod ar sut i baratoi a helpu plentyn neu berson sydd angen cymorth. Gallwch wylio fideo arddangos ar:
**gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help**
Os ydych chi'n helpu plentyn, dangoswch y pecyn profi iddynt a thrafod beth fyddwch chi'n ei wneud. Gofynnwch i'r plentyn chwythu ei drwyn neu ei thrwyn mewn hances bapur. Rhowch yr hances mewn bin sy'n cau.


Withdrawn January 2024




**12** Rhowch y swab yn ofalus i mewn i un o'i ffroenau. Dylid mewnosod blaen y swab nes y teimlir gwrthiant.




**13** Rholiwch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'w ffroen mewn symudiad cylchol 3-4 o weithiau. Tynnwch y swab yn araf. Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'w ffroen.

**RHYBUDD:** Gallai hyn deimlo'n anghyfforddus. Peidiwch â gosod y swab yn ddyfnach os yw'n teimlo ei fod yn cyffwrdd â rhwystr neu'n peri poen.


**Gan ddefnyddio'r un swab, ailadroddwch gamau 12 a 13 ar gyfer y ffroen arall.**


Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.


# 4. Prosesu'r sampl swab

**Gair o gyngor**


I gael y perfformiad gorau, profwch y swab trwynol cyn gynted â phosibl wedi swabio eich ffroenau.




**14** Codwch y tiwb echdynnu a gosodwch y swab gyda'r sampl i mewn i'r tiwb echdynnu. Trowch y swab 3-5 o weithiau. Gadewch y swab yn y tiwb echdynnu am 1 funud.



**15** Pinsiwch y tiwb echdynnu gyda bysedd tra'n tynnu'r swab er mwyn gadael cymaint o doddiant â phosibl yn y tiwb. Rhowch y swab yn ôl yn neunydd pacio'r swab.




**16** Gosodwch gaead y diferydd yn dyn ar ben y tiwb echdynnu.

**CYNGOR**

Golchwch eich dwylo eto wedi cwblhau'r cam yma.






**17** Agorwch y pecyn ffoil a thynnu'r cerdyn profi.


**RHYBUDD**

Wedi ei agor, rhaid defnyddio'r cerdyn profi ar unwaith.




**18** Sicrhewch fod y pecyn profi ar arwyneb glân a gwastad.

Peidiwch â symud y cerdyn yn ystod y prawf.




**19** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn ofalus i roi 3 diferyn o'r sbesimen profi yn y ffynnon (wedi ei labelu S) ar y cerdyn profi.
**RHYBUDD:** Gwnewch yn siŵr eich bod yn gollwng hylif ac nad yw'r ffynnon yn cynnwys unrhyw swigod aer.




**20** Gosodwch amserydd ac aros 15 munud cyn i chi ddarllen eich canlyniad. Gall canlyniad positif ymddangos unrhyw adeg, ond dylech aros am y 15 munud llawn i gofnodi canlyniad negatif oherwydd gallai'r llinell brawf (T) gymryd cymaint o amser â hynny i ymddangos.

Dysgwch sut i ddarllen ac adrodd eich canlyniad ar y dudalen nesaf. >>

Withdrawn January 2024



Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.

# 5. Darllen eich canlyniad

**PWYSIG**

Peidiwch â gadael i'r prawf ddatblygu am fwy na 20 munud gan y bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys.








## Canlyniad positif

Mae dwy linell yn ymddangos. Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (C), a llinell lliw arall yn ardal y llinell brawf (T).
Mae dwy linell, un wrth ymyl C ac un wrth ymyl T, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn bositif.


**PWYSIG**

Os bydd eich canlyniad yn bositif, dylech hunanynysu a dylai eich aelwyd ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar hunanynysu: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/**




## Canlyniad negatif

Mae un llinell lliw yn ymddangos yn yr ardal llinell reoli (C). Does yna ddim llinell liw yn ymddangos yn y rhanbarth llinell brawf (T).




## Canlyniad annilys


Nid yw'r llinell rheoli (C) yn ymddangos.

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.



# 6. Adrodd eich canlyniad


## Dylech adrodd eich canlyniadau positif, negatif ac annilys i'r GIG.




Mae cofnodi canlyniad pob prawf yn helpu gwyddonwyr i nodi achosion newydd o'r firws a chynghori ar sut i ymateb. Os mai dim ond canlyniadau positif a adroddir arnynt, mae lefelau achosion yn ymddangos i fod yn uwch nag ydynt mewn gwirionedd.

Felly hyd yn oed os yw'ch canlyniad yn negatif neu'n annilys, dylech sicrhau bod gwybodaeth y GIG yn gywir.


Mae angen y cod QR, neu'r rhif adnabod oddi tano i adrodd eich canlyniad.



## Adrodd ar-lein (cyflymaf)

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ewch i: **gov.uk/report-covid19-result**

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i: **covidtest.scot**



## Neu adrodd dros y ffôn

Ffoniwch **119**

Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm, (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.



Withdrawn January 2024

# 7. Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu

## Dim ond wedi i chi adrodd eich canlyniad fyddwch chi wedi cwblhau eich prawf

### Canlyniad positif

Os byddwch yn cael canlyniad positif, mae'n debygol eich bod wedi eich heintio â COVID-19 ar hyn o bryd a bod perygl y byddwch yn heintio eraill. Dylech hunanynysu. Pan fyddwch yn adrodd eich canlyniad, byddwch yn cael rhagor o wybodaeth ar y camau nesaf i'w cymryd.

**RHYBUDD**

Dylech chi, ac unrhyw un sy'n byw gyda chi, ddilyn y canllaw cenedlaethol a lleol cyfredol. Gellir dod o hyd iddo yn: **nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19/self-isolation-and-treatment/** neu trwy ffonio'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

### Canlyniad negatif

Os byddwch yn cael canlyniad negatif, mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrwydd nad oes gennych COVID-19.

Os yw canlyniad y prawf yn negatif, dylech barhau i ddilyn rheolau a chanllawiau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb, lle mae angen gwneud hynny.

Os byddwch chi'n datblygu symptomau, dylech hunanynysu a chael y prawf a argymhellir ar hyn o bryd ar: **gov.uk/get-coronavirus-test** neu trwy ffonio'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

Dylech chi a'ch aelwyd ddilyn canllawiau cenedlaethol.

### Canlyniad annilys

Os byddwch yn cael canlyniad annilys, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i ni ddweud a oedd y feirws arnoch pan gynhaliwyd y prawf. I wirio os oes gennych chi'r coronafeirws, cymerwch brawf arall cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag ail-ddefnyddio unrhyw beth o'r pecyn profi a chychwynnwch weithdrefn y prawf o gam 1.

### Os yw'r broblem yn parhau

Os yw'r broblem yn parhau, stopiwch ddefnyddio'r pecynnau profi ar unwaith. Os nad oes gennych chi brawf arall ar gael, gallwch gymryd gwahanol fath o brawf trwy ap COVID-19 y GIG neu trwy fynd i: **gov.uk/get-coronavirus-test** neu trwy ffonio eich canolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

### 8 Perfformiad y prawf

Mae'r prawf yn fwy tebygol o roi canlyniad positif os oes gan rywun lefelau uchel o goronafeirws (COVID-19).
Mae hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol o ddarganfod y bobl sy'n heintus ar hyn o bryd sydd angen hunanynysu ar unwaith.

### 9 Gwaredu'ch pecyn profi yn ddiogel

Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf, rhowch yr holl eitemau o'r pecyn profi a ddefnyddiwyd yng ngwastraff cyffredinol y cartref.

Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu.

Withdrawn January 2024

## Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion

Mae hyn ar gyfer eich cofnodion chi eich hun. Dylech adrodd i'r GIG am eich canlyniad hefyd (gweler tudalen 15 am ragor o wybodaeth).

Ewch i: **gov.uk/report-covid19-result**

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i: **covidtest.scot**

| Cod QR / rhif adnabod y pecyn profi | Pwy gymerodd y prawf | Dyddiad | Amser | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Withdrawn January 2024



## Mae eich pecyn yn cynnwys y deunyddiau canlynol

| Eitemau | Pecyn o 7 |
|---|---|
| Cerdyn Profi mewn Pecyn wedi ei Selio | 7 |
| Swab Di-haint wedi ei Selio mewn Pecyn | 7 |
| Tiwb Echdynnu | 7 |
| Potel Byffer Echdynnu | 7 |
| Cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio (sef y ddogfen hon) | 1 |
| Stand Tiwb | 1 |

NHS

Test and Trace

Ni chaniateir cyflenwi'r ddyfais hon ond fel rhan o waith y DHSC dan raglen Profi ac Olrhain y GIG.

Gwneuthurwr:
MP Biomedicals Germany GmbH
Thueringer Str. 15 37269
Eschwege, Germany (Yr Almaen)

CE 0123

Gwneuthurwr y Swab:
Jiangsu Hanheng Medical Technology Co.,Ltd. 16-B4,#1 North Qingyang Road,
Tianning District, 213017, Changzhou, Jiangsu, China (Tsiena)

CE 0197

EC REP Luxus Lebenswelt GmbH
Kochstr.1, 47877, Willich, Germany (Yr Almaen)

Gwneuthurwr y Swab:
Goodwood Medical Care Ltd. 1-2 Floor, 3-919 Yongzheng Street,
Jinzhou District, Dalian, 116100 Liaoning, China (Tsiena)

CE 0197

EC REP CMC Medical Devices & Drugs S.L.
C/ Horacio Lengo No18, CP 29006, Màlaga, Spain (Sbaen)

## Mynegai i'r symbolau

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4°C–30°C: Storiwch o fewn 4 – 30°C | STERILE EO: Diheintiwyd gan ddefnyddio ethylen ocsid | Gwneuthurwr | Σ 7: Cynhwysir digon ar gyfer 7 o brofion |
| LOT: Rhif lot | Dyddiad defnyddio erbyn | IVD: Dyfais feddygol ddiagnostig in vitro | Peidiwch â defnyddio os oes difrod i'r pecyn |
| Cadwch oddi wrth olau haul | Rhybudd | Peidiwch â'i ailddefnyddio | Ailgylchadwy |
| Cadwch yn sych | Gweler y cyfarwyddiadau ar gyfer defnydd | CE: Cydymffurfiad Ewropeaidd | REF: Rhif catalog |
| EC REP: Cynrychiolydd Awdurdodedig | | | |

Mae'r holl wybodaeth a'r delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar 24/09/21. Fersiwn 0002

REF 07AG6007BS

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Cerdyn Prawf Cyflym Antigenau MP Biomedicals SARS-CoV-2 yn unig, Cod cynnyrch: 07AG6007BS.

**Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG**

Withdrawn January 2024